

Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru

Adroddiad Blynyddol
2022 - 2023



Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol
Gogledd Cymru
North Wales
Regional Skills Partnership



Cynnwys

01. Croeso a Chyflwyniad

02. Pwy yw PSR Gogledd Cymru?
Ei'n Rôl a'n Cylch Gwaith
Llywodraethu ac Aelodaeth

03. Ein Glasbrint Sgiliau Gogledd Cymru

04. Gweithgareddau a Chyflawniadau: Yr
Uchafbwyntiau

05. Asesiad Cynnydd dros y 12 Mis Diwethaf

06. Y Flwyddyn Nesaf

07. Cysylltu â'r Tîm



01. Croeso a Chyflwyniad

Croeso i Adroddiad Blynyddol Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru 2022/23, sy'n tynnu sylw at y ffyrdd yr ydym wedi bod yn gyrru ymlaen â'r agenda sgiliau a chyflogadwyedd ledled ein rhanbarth; yn unol â'n cynllun sgiliau ac mewn ymateb i'r farchnad lafur a'r heriau mewn tirwedd ariannu sy'n newid yn barhaus.

Mae eleni wedi bod yn flwyddyn o gynnydd, ac rwyf yn ymfalchio yn y ffaith y bu i ni fedru lansio ein Cynllun Sgiliau a Chyflogaeth (2023-2025) newydd ar gyfer y rhanbarth a gafodd ei gyd-gynhyrchu ar ôl ymgynghori'n helaeth â chyflogwyr, darparwyr a rhan-ddeiliaid. Mae'r cynllun yn cyfleu sut y mae angen i ni fod yn uchelgeisiol ac yn glir ein meddwl, ac yn effeithiol wrth weithredu er mwyn sicrhau pŵl o dalent gwydn a medrus. Mae gennym lasbrint sy'n adnabod tri blaenoriaeth sydd eu hangen i gefnogi'r newid yr hoffem ei weld yn y rhanbarth dros y tair mlynedd nesaf.


Roedd yn wych rhannu ein gweledigaeth mewn digwyddiad ar y cyd ym mis Ionawr; yn wir daeth hyn â'r glasbrint yn fyw, ac os oedd y digwyddiad yn arwydd o'r hyn sydd i ddod dros y tair blynedd nesaf, wel, mae gennym reswm i fod yn gyffrous. Gwelsom awch gwirioneddol i hwyluso rhagor o brofiad gwaith, uwchsgilio ac ailhyfforddi, a gobeithiwn y bydd y sgysiau ystyrlon hyn yn trawsnewid i fod yn ragor o gyfleoedd am lewyrch. Mae cyfathrebu ac ysbrydoli yn ddau air sy'n gweithredu fel llinynnau drwy'r cynllun a bydd hyn yn hanfodol i sicrhau ein bod yn gweithredu yn effeithiol.

Yn ystod y flwyddyn, mae'r Bartneriaeth a'i is-grwpiau a'r darparwyr wedi annog cyflogwyr i fod yn fwy creadigol a hyblyg o ran eu cynnig cyflogaeth.

Rydym wedi annog a hwyluso ysgolion a cholegau i fedru darparu'r wybodaeth ddiweddaraf ar gyfleoedd gyrfa a'r llwybrau i gyflogaeth, gyda'r nod o ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf tuag at y cyfleoedd sy'n bodoli. Wrth i'r gweithle newid yn gyflym, rydym wedi canolbwyntio ar sicrhau sgiliau Sero Net a sgiliau digidol yn y rhanbarth a bydd hyn yn ffocws allweddol am y tair blynedd nesaf.

Ni allaf orffen heb gydnabod cyfraniad hynod Aelodau Bwrdd y Bartneriaeth a Chadeiryddion ac aelodau ein grwpiau clwstwr ac is-grwpiau. Mae ehangder eu sgiliau a'u profiad, a'u parodrwydd i fynd y filltir ychwanegol, yn sicrhau bod llais y cyflogwr yn dal i chwarae rhan hanfodol wrth siapio system sgiliau'r rhanbarth i'r dyfodol. Gyda'n gilydd, rydym yn parhau i fod yn angerddol am y rhanbarth ac wedi ymrwymo i sicrhau bod Gogledd Cymru yn sefyll yn gadarn ar y map o ran gweithlu medrus. Edrychaf ymlaen at gydweithio â'n clystyrau a'n is-grwpiau dros y flwyddyn i ddod er mwyn cyflawni ein blaenoriaethau.

Mae llawer i'w wneud dros y flwyddyn nesaf, ond yn yr un modd, mae gennym lawer i fod yn gyffrous amdano hefyd. Gyda'n gilydd, gallwn gyflawni hyn.



David Roberts

Cadeirydd Partneriaeth Sgiliau
Rhanbarthol Gogledd Cymru



02. Pwy yw Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru?

Ei'n Rôl a Chylch Gwaith

Mae Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru yn un o bedair partneriaeth yng Nghymru. Ers 2014, mae Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru (RSP) wedi dod â chyflogwyr, darparwyr sgiliau a rhan-ddeiliaid lleol allweddol ynghyd i gael gwell dealltwriaeth a datrys unrhyw broblemau o ran addasrwydd sgiliau ar lefel ranbarthol a lleol.

Prif rôl yr RSP yw ymdrin â phrinder sgiliau trwy ddylanwadu ar ddarpariaeth sgiliau ôl-16 Gogledd Cymru yn seiliedig ar wybodaeth am y farchnad lafur ac ar yr arweiniad gan gyflogwyr. Mae'r RSP yn dod ag arbenigedd ynghyd o'r system marchnad lafur, yn hwyluso rhwydweithiau presennol gan ddarparu cyngor, trosolwg ac argymhellion strategol hanfodol i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau.

Mae aelodau'r RSP yn cynrychioli rhwydweithiau o bartneriaid, yn hytrach na'u sefydliadau eu hunain yn unig. Maent yn gweithredu fel sianeli i rwydweithiau ehangach o randdeiliaid a darparwyr yn ecosystem sgiliau a chyflogaeth Gogledd Cymru.

Llywodraethu ac Aelodaeth

Mae gan y Partneriaeth bump is-grŵp / clwstwr sy'n rhan o'i strwythur, gan gynnwys:

- Is-grŵp Cyflogadwyedd
- Is-grŵp Dysgu yn Seiliedig ar Waith
- Rhwydwaith Sgiliau Digidol
- Is-grŵp Clwstwr Cyflogwyr Adeiladwaith
- Is-grŵp Clwstwr Cyflogwyr Sector Cyhoeddus

Is-grŵp Cyflogadwyedd:

Mae'n ceisio cydlynu i wella cydlyniant, ansawdd ac effeithiolrwydd cost y ddarpariaeth cyflogadwyedd ledled y rhanbarth. Drwyddi draw, mae'r grŵp yn chwarae rhan hanfodol wrth lywio'r ymdrechion i wella'r deilliannau cyflogadwyedd drwy feithrin cydweithio, rhannu gwybodaeth ac eiriolaeth. Hefyd, mae'n gweithredu fel llwyfan i rannu gwybodaeth, gwaith ymchwil ac arferion gorau sy'n ymwneud â chyflogadwyedd. Mae'n galluogi rhan-ddeiliaid i ddysgu o brofiadau, llwyddiannau a heriau'r naill a'r llall wrth ymdrin â materion cyflogadwyedd.

Is-grŵp Dysgu yn Seiliedig ar Waith:

Pwrpas y Grŵp yw ymateb i'r cyfleoedd a gyflwynir gan gyflogwyr drwy Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru yn nhermau darpariaeth dysgu seiliedig ar waith rhanbarthol ôl-16 a chyflawni yn y rhanbarth, ynghyd â hysbysu'r RSP ar y ddarpariaeth dysgu seiliedig ar waith presennol ac sydd ar y gweill. Mae'r grŵp yn cynnwys holl brif ddarparwyr Gogledd Cymru ac mae'n cynnwys y tri deiliad contract prentisiaethau yn Rhanbarth Gogledd Cymru. Mae'n canolbwyntio ar gyfeiriad strategol y ddarpariaeth dysgu yn seiliedig ar waith presennol ac yn y dyfodol a'i gyflwyniad yn y rhanbarth yng nghyd-destun blaenoriaethau sgiliau Llywodraeth Cymru a'r farchnad lafur. Mae gan y grŵp weledigaeth glir sy'n nodi'r blaenoriaethau ac yn mesur cynnydd a llwyddiant.

Is-grŵp Clwstwr Cyflogwyr Sector Cyhoeddus:

Mae'n ceisio datblygu dull cydweithredol, cydlynus ac sydd wedi'i dargedu i ddiffinio'r bylchau mewn sgiliau sector cyhoeddus a'r galw am brentisiaethau yng Ngogledd Cymru. Mae'r grŵp yn dod â chyflogwyr sector cyhoeddus o'r rhanbarth at ei gilydd i gefnogi galw cyflogwyr am dwf drwy sgiliau lefel uwch ac i gyflwyno negeseuon allweddol i hysbysu a dylanwadu ar ein darparwyr rhanbarthol i ymateb â darpariaeth briodol. Aelodau craidd y grŵp yw'r chwe awdurdod lleol, y gwasanaethau brys a sefydliadau sector cyhoeddus eraill megis y colegau, Cyfoeth Naturiol Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.


Rhwydwaith Sgiliau Digidol:

Mae'n ceisio datblygu dull cydweithredol, cydlynus ac wedi'i dargedu tuag at heriau sgiliau digidol fel bod gan y rhanbarth weledigaeth a chyfres o flaenoriaethau clir. Mae'n dod â chyflogwyr o bob maint at ei gilydd o ledled y rhanbarth i rannu eu heriau, cyfleoedd ac arferion gorau. Mae'r cyflogwyr sy'n rhan o'r grŵp hwn yn cynrychioli nifer o sectorau yng Ngogledd Cymru, ond maent oll angen sgiliau digidol. Fel hyn, gall y grŵp gael mynediad at wybodaeth a phrofiad helaeth a gwahanol agweddau wrth ystyried sgiliau digidol.

Is-grŵp Clwstwr Cyflogwyr Adeiladwaith:

Mae'n ceisio datblygu dull cydweithredol, cydlynus ac sydd wedi'i dargedu at yr her o sicrhau bod y sgiliau a'r cyfleoedd cywir ar gael i'r sector adeiladu ac amgylchedd adeiledig. Y nodau penodol yw casglu barn gan gyflogwyr a deallusrwydd am y farchnad lafur fydd yn cryfhau'r berthynas a chyfathrebu gydag a rhwng cyflogwyr sector adeiladu'r rhanbarth a'r darparwyr addysg a hyfforddiant, a chael llais clir i sicrhau bod anghenion cyflogwyr yn gallu siapio'r ddarpariaeth a'r llwybrau cynnydd ar gyfer datblygu sgiliau, addysg a hyfforddiant mewn swyddi adeiladu. Mae'r grŵp hefyd yn ceisio cael rhagor o amrywiaeth yn y rhai sy'n dod i mewn i'r sector, a chynyddu nifer y merched yn y byd adeiladu.

North Wales Regional Skills Partnership Structure:



Aelodaeth Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru:



Ein Blaenoriaeth Sgiliau Gogledd Cymru

Rydym wedi adnabod tair blaenoriaeth sydd eu hangen i gefnogi'r dirwedd sgiliau a chyflogadwyedd dros y tair blynedd nesaf:

GALLUOGI A GRYMUSO CYFLOGWYR

Cefnogi cyflogwyr i ddatblygu eu gweithlu

Cefnogi cyflogwyr i 'gyrchu'r talent' (gan gynnwys hyrwyddo prentisiaethau)

Cefnogi mynediad i weithwyr sy'n barod i weithio

Newid canfyddiadau rhanbarth Gogledd Cymru o ran cyfleoedd cyflogaeth

Codi ymwybyddiaeth o'r gefnogaeth sydd ar gael a'r mynediad ati

Galluogi a grymuso cyflogwyr

Galluogi a grymuso unigolion

Sut y darperir cefnogaeth a sefydlu'r cysylltiadau

GALLUOGI A GRYMUSO UNIGOLION

Datblygu sgiliau pobl i ddiwallu anghenion cyflogwyr nawr ac yn y dyfodol

Newid canfyddiadau rhanbarth Gogledd Cymru o ran cyfleoedd cyflogaeth

Codi ymwybyddiaeth o'r gefnogaeth a'r opsiynau sydd ar gael ar gamau allweddol bywyd

Ymgysylltu â'r hyn sy'n dylanwadu ar y penderfyniadau allweddol a wneir gan unigolion

SUT Y DARPERIR CEFNOGAETH A SEFYDLU'R CYSYLLTIADAU

Dwyn ynghyd darparwyr cefnogaeth a rhan-ddeiliaid allweddol

Datblygu'r darparwyr cefnogaeth (e.e. mentora'r mentoriaid)

Deall beth sy'n gweithio - casglu a rhannu arfer dda

Hyrwyddo mireinio a chael gwared ag annibendod - osgoi dyblygu ac annog symrlwydd

Cefnogi datblygu dull gwaith hyblyg a all ymateb i anghenion nawr ac yn y dyfodol

Herio polisi a hyrwyddo polisi a phenderfyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth

04. Gweithgareddau a Chyflwyniadau: Yr Uchafbwyntiau



CHWARTER 3

- Adolygiad Cymhwyster Cyfrif Dysgu Personol (PLA)
- Llwybrau Gyrfa a'r Cwricwlwm Newydd a gweithio gydag ysgolion a phartneriaid addysgiadol
- Sgiliau Sero Net
- Gogledd Creadigol



CHWARTER 1

- Gwarant Pobl Ifanc
- Adolygiadau Cymwysterau Cymru
- Adroddiad Cryno - Effaith Covid-19 ar Farchnad Lafur y Gogledd
- Gweithdai SPF
- Expo Sgiliau Digidol



CHWARTER 4

- Cynllun Sgiliau a Chyflogaeth Gogledd Cymru
- Hyrwyddo Prentisiaethau Uwch a Phrentisiaethau Gradd yn y rhanbarth
- Sgiliau Ynni Carbon Isel
- Lansio'r Dwsin Digidol
- Cyfarfod ar y cyd rhwng Grŵp Darparwyr Dysgu Seiliedig ar Waith (WBL) y Bartneriaeth a'r Grŵp Clwstwr Cyflogwyr Sector Cyhoeddus
- Cynhadledd Cyflogadwyedd
- Sgiliau y Cynllun Twf

CHWARTER 2

- Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (NOS)
- Ymgyrchoedd, Marchnata a Chyfathrebu
- Ôl-osod er mwyn Optimeiddio



Gwarant Pobl Ifanc

Fe ymgynghorom â rhaglenni, prosiectau a rhan-ddeiliaid ar draws y rhanbarth i gael gwell dealltwriaeth o'r dirwedd gyfredol o gynnig/cefnogaeth sydd ar gael o ran yr addysg, cyflogaeth, hyfforddiant a chefnogaeth/darpariaeth llesiant sydd ar gael i bobl ifanc (16-24 mlwydd oed) yn lleol ac yn rhanbarthol fel rhan o'r ymchwil pen desg ar gyfer Gwarant Pobl Ifanc. Cyflwynwyd adroddiad i Lywodraeth Cymru yn tynnu sylw at y bylchau rhanbarthol yn y ddarpariaeth/cefnogaeth ac fe nodwyd y blaenoriaethau rhanbarthol ar gyfer y dyfodol. Cliciwch [yma](#) i ddarllen yr adroddiad

Gweithdai SPF ar gyfer Sgiliau a Chyflogadwyedd

Hwylusodd yr RSP gyfres o weithdai yn ystod chwarter cyntaf ac ail chwarter y flwyddyn i adnabod blaenoriaethau sgiliau a chyflogadwyedd rhanbarthol. Fe fapiodd darparwyr hyfforddiant, gan gynnwys colegau a phrifysgolion, flaenoriaethau sgiliau'r rhanbarth ac fe amlinellodd darparwyr cyflogadwyedd ar draws yr holl sectorau y blaenoriaetha cyflogadwyedd yn erbyn y llwybr cyflogadwyedd rhanbarthol. Roedd y gweithgaredd yn sicrhau ymwybyddiaeth o fylchau yn y ddarpariaeth ac yn isafu'r dyblygu mewn prosiectau pan agorodd y cyfle SPF am geisiadau prosiect.

Adroddiad Cryno - Effaith COVID-19 ar Farchnad Lafur y Gogledd

Fe gyflwynom iteriad diwethaf yr adroddiad LMI Covid-19 i Lywodraeth Cymru ym mis Ebrill 2022. Roedd yr adroddiad crynodeb diwethaf yn seiliedig ar waith ymchwil a wnaed dros gyfnod y pandemig sy'n rhoi trosolwg o'r effaith sgiliau a nodwyd yn y rhanbarth dros gyfnod y pandemig. Mae'r adroddiadau blaenorol wedi bod yn seiliedig yn bennaf ar wybodaeth gan weithgareddau ymgysylltu cyflogwyr a rhan-ddeiliaid, ynghyd â gwybodaeth feintiol am y farchnad lafur (e.e. data am swyddi sy'n cael eu hysbysebu, Credyd Cynhwysol a Niferoedd Hawlwyr, data Prentisiaethau), lle bo hynny'n briodol. Cliciwch [yma](#) i ddarllen yr adroddiad

Adolygiad Cymhwyster Cyfrif Dysgu Personol (PLA)

Mae'r RSP wedi bod yn gweithio gyda cholegau AB, Llywodraeth Cymru a chyflogwyr i gynnal adolygiad cymhwyster o'r cynnig PLA yn y rhanbarth. Mae sicrhau bod cymwysterau a gynigir trwy'r PLA yn bodloni gofynion y diwydiant yn hanfodol, ac mae'r RSP wedi cyfrannu gwybodaeth gadarn am y farchnad lafur a barn y diwydiant ar y cynnig presennol.

Hyrwyddo Prentisiaethau Uwch a Phrentisiaethau Gradd yn y rhanbarth

Mewn ymateb i'r her sy'n wynebu cyflogwyr ynghylch lle i ddod o hyd i wybodaeth am brentisiaethau, datblygodd y WBL Provider Group daflen ar gyfer cyflogwyr ac unigolion sy'n cynnwys gwybodaeth am y llwybrau prentisiaethau Uwch a Gradd a'r darpariaethau sydd ar gael yn y rhanbarth a sut allai hyn helpu i gefnogi eu dyfodol. Gallwch weld y daflen [yma](#).

Sgiliau Ynni Carbon Isel

Rydym wedi dechrau gweithio ar y Fframwaith Sgiliau Sero Net i ddeall yn well y bylchau a'r diffyg sgiliau yn y sector a'r datblygiadau Ynni Carbon Isel. Lluniwyd grŵp llywio, sy'n cynnwys datblygwyr ynni carbon isel, RWE, BP, Morlais, Magnox a Chwmni Egin, i ddeall gofynion sgiliau arbenigol, uwchsgilio ac ailsgilio'r gweithlu, yn ogystal ag adnabod y sgiliau trosglwyddadwy a chyffredin sy'n codi ar draws prosiectau a thechnolegau. Rydym hefyd wedi gweithio'n agos gyda darparwyr hyfforddiant i dynnu sylw at ehangder y cyfleusterau addysgol a hyfforddiant sydd ar gael yn y rhanbarth i gefnogi cyflogwyr newydd a phresennol ar draws y diwydiant ynni carbon isel, gan gynnwys eu cadwyn gyflenwi.

Digwyddiad Expo Sgiliau Digidol

Mewn cydweithrediad â M-SParc, cynhaliodd yr RSP Ddigwyddiad Sgiliau Digidol llwyddiannus ym mis Mehefin, gyda dros 120 o bobl yn bresennol. Roedd modd i gyflogwyr gael mynediad at ddoniau newydd yn y rhanbarth wrth i ni ddod â phobl ifanc, graddedigion ac unigolion sy'n economaidd anweithgar at ei gilydd. Roedd yn gyfle gwych i gael gwybodaeth gan gyflogwyr er mwyn deall eu hanghenion sgiliau nawr ac yn y dyfodol. Ymunodd Paul Kinlan o Google â ni yn rhithiol i rannu cyngor ar sut i ddenu a chadw pobl ifanc mewn sector sydd mor gystadleuol.



Cynllun Sgiliau a Chyflogaeth Gogledd Cymru 2023-2025

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r ffocws wedi bod ar ymgynghori ar ein Cynllun Sgiliau a Chyflogadwyedd newydd ar gyfer 2023-25. Fe siaradom â thros 400 o gyflogwyr yn y rhanbarth er mwyn deall eu hanghenion a'u heriau sgiliau ac fe gynhaliom grwpiau ffocws a gweithdai gyda'n partneriaid a'n rhan-ddeiliaid i osod y weledigaeth a'r blaenoriaethau ar gyfer y rhanbarth dros y tair blynedd nesaf. Bydd y cynllun newydd yn canolbwyntio ar:

- Helpu cyflogwyr i ddeall potensial gweithwyr yn y rhanbarth heddiw ac yn y dyfodol
- Helpu unigolion i ddeall pa gyfleoedd cyflogaeth sydd ar gael iddynt yn y rhanbarth
- Hysbysu a gwella'r broses o wneud penderfyniadau ar lefel polisi
- Hwyluso cydweithio a gweithio mewn partneriaeth rhwng rhan-ddeiliaid allweddol

Dysgwch mwy [yma](#).



Adolygiadau Cymwysterau Cymru

Rydym wedi cefnogi amrediad eang o adolygiadau sector a wnaed gan Gymwysterau Cymru - gan gynnwys y rhai sy'n canolbwyntio ar Ddigidol a Gweithgynhyrchu Uwch, ynghyd â Theithio, Twristiaeth, Lletygarwch ac Arlwyo a'r gyfres o gymwysterau Galwedigaethol Cyn 16. Mae'r gwaith hwnnw wedi ein helpu i ddod yn eiriolwyr gwybodus ar gyfer datblygu Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol newydd ac wedi'u hadnewyddu, a all helpu wrth adeiladu ar gyfer cymwysterau galwedigaethol sy'n canolbwyntio ar sector.

Y ffocws nawr yw gweithio gyda Chymwysterau Cymru drwy eu hadolygiadau sector a helpu gyda'r prosesau gweithredu - gan ddylanwadu ar Golegau Cymru, NTfW a darparwyr hyfforddiant i sicrhau bod ymarferwyr yn meddu ar sgiliau addas i gyflawni yn erbyn gofynion newydd, yn ogystal ag ymgysylltu â 'Cymwys ar gyfer y Dyfodol' i ail-lunio'r dirwedd gymwysterau a defnyddio grwpiau clwstwr sector blaenoriaeth drwy'r Cwricwlwm i Gymru.

Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru yn lansio cynllun Sgiliau a Chyflogadwyedd i'r rhanbarth

Gyda sgiliau yn uchel ar yr agenda i gyflogwyr, fe lansiodd Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru ei gynllun sgiliau a chyflogadwyedd am y tair blynedd nesaf i helpu i uchafu'r cyfleoedd i uwchsgilio yn y rhanbarth.

Mae David Roberts, sy'n cadeirio'r RSP, yn ymfalchïo mewn symleiddio'r dirwedd gyflogaeth a sgiliau cymhleth drwy ddarparu fframwaith i gyflogwyr, darparwyr hyfforddiant a chyllidwyr er mwyn iddynt weithio ar y cyd.

Daeth mwy na 160 o fynychwyr i'r digwyddiad lansio yn Venue Cymru, gyda sesiynau panel a siaradwyr arbenigol yn annog deialog agored rhwng sectorau.

Yn ogystal, cymeradwyodd y Gweinidog dros yr Economi yn Llywodraeth Cymru, Vaughan Gething, y cynllun yn ei anerchiad fel y prif siaradwr gwadd (o bell).



Meddai David: "Roedd rhannu ein gweledigaeth mewn digwyddiad ar y cyd yn wir wedi dod â'r glasbrint yn fyw, ac os oedd y digwyddiad yn arwydd o'r hyn sydd i ddod dros y tair blynedd nesaf, wel, mae gennym reswm i fod yn gyffrous iawn.

"Gwelsom awch gwirioneddol i hwyluso rhagor o brofiad gwaith, uwchsgilio ac ailhyfforddi, a gobeithio y bydd y sgysiau ystyrllon hyn yn trawsnewid i fod yn fwy o gyfleoedd am lewyrch.


"Roedd yn wych clywed lleisiau o genhedlaeth nesaf y gweithlu yn tynnu sylw at fuddion rhagor o gydweithio o'u safbwynt nhw - creodd hyn rym ysbrydoledig yn yr ystafell."




David Roberts yn Lansiad y Cynllun Sgiliau a Chyflogaeth

I arddangos tair agwedd greiddiol y cynllun; galluogi cyflogwyr, cyfathrebu sut mae cefnogaeth yn cael ei darparu, a grymuso unigolion, cynhaliwyd tair sesiwn panel gyda chynrychiolwyr o bob adain yn bresennol.

Yn ystod y panel oedd yn cloi'r diwrnod, rhannodd prentisiaid presennol eu barn gan ateb cwestiynau. Yn eu plith oedd Rosie Boddy, sy'n cwblhau prentisiaeth Airbus. Cyflwynodd Rosie sgwrs yn ystod y dydd hefyd.

 Meddai Rosie, a symudodd o'i chartref yn Farnborough i Ogledd Cymru ar gyfer y brentisiaeth pan oedd yn 17 oed: "Roeddwn wastad yn gwybod fy mod am gael gyrfa yn y diwydiant hedfanaeth, felly roeddwn wrth fy modd o gael y cyfle i ymuno ag Airbus a chael lle ar y cynllun.

"Ers hynny, mae'r brentisiaeth wedi arwain at gyfleoedd di-rif i mi wella fy sgiliau, gan gynnwys cymryd rhan yn rowndiau terfynol cenedlaethol WorldSkills UK lle yr enillais fedal aur mewn cynnal a chadw awyrennau.

"Mae hi mor bwysig i fusnesau weithio'n agos â chydweithwyr i helpu i ddangos y cyfleoedd amrywiol sydd ar gael a'u cyflwyno fel dewisiadau gyrfa hyfyw i bobl ifanc." 





Rosie Boddy yn Lansiad y Cynllun Sgiliau a Chyflogaeth

Bu i sesiwn panel arall ddod â chynrychiolwyr ynghyd o ddarparwyr addysg Prifysgol Bangor, Prifysgol Glyndŵr Wrecsam, Coleg Cambria, Coleg Llandrillo Menai, Gyrfa Cymru, a Chyngor Sir y Fflint, i siarad am eu rhaglenni hyfforddi a'u cysylltiadau cyfredol â'r diwydiant.

Yn ogystal, roedd panel oedd yn canolbwyntio ar fusnes yn cynnwys cyflogwyr allweddol Moneypenny, The VAE, M-Sparc a Wynne Construction, oedd yn trafod arferion gorau wrth ddatblygu sgiliau prentisiaid a gweithwyr er mwyn cryfhau eu gweithlu.

Bu i reolwr gwerth cymdeithasol Wynne Construction, Alison Hourihane, hefyd arwain sgwrs ar y cyfleoedd i ddatblygu sgiliau yn y diwydiant adeiladu.

 Wrth adlewyrchu ar y digwyddiad, meddai Alison: "Wrth weithio yn y byd adeiladu, rydym yn gadael gwaddol i'r gymuned leol felly mae'n hynod bwysig ein bod yn sicrhau hyn o'r cychwyn cyntaf gan ddarparu cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant lleol".

"Mae cefnogi pobl leol i fynd i fyd adeiladu a thapio i mewn i addysg yn rhan enfawr o'n gwaith a'n gobaith yn ystod tair blynedd nesaf y cynllun yw y bydd rhagor o unigolion yn dod yn ymwybodol o'r cyfleoedd a'r llwybrau gyrfa sydd ar gael i helpu i gynyddu sgiliau yn niwydiannau Gogledd Cymru." 

Alison Hourihane yn Lansiad y Cynllun Sgiliau a Chyflogaeth



Gofynion Sgiliau Prosiectau'r Cynllun Twf

Ochr yn ochr ag Uchelgais Gogledd Cymru, rydym wedi bod yn gweithio i ddatblygu ffordd safonol o nodi bylchau sgiliau a heriau sy'n gysylltiedig â phrosiectau'r Cynllun Twf i sicrhau y gallwn ni, fel rhanbarth, fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd. Mae'r gwaith yn mynd rhagddo, a bydd cydlynu sgiliau yn chwarae rhan hanfodol wrth gyflawni prosiectau'r Cynllun Twf. Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi gweithio'n benodol â Morlais, Cwmni Egino, Ynni Lleol Blaengar, Tourism Talent Network, Egni a Champysau Cysylltiedig i gynorthwyo â dadansoddi data a sgiliau.

Gogledd Creadigol

Ymgysylltu a chefnogaeth barhaus yn digwydd drwy'r flwyddyn fel aelod grŵp llywio yn hyrwyddo'r sector Diwydiant Creadigol yng Ngogledd Cymru. Fe gymerom ran mewn digwyddiad 'Codi STEM' diwrnod cyfan yng Ngholeg Menai, Llangefni, oedd wedi'i anelu at ddisgyblion ysgol uwchradd i'w hysbysu a'u hysbrydoli am yrfaeod yn y sector creadigol a digidol drwy gyflwyno Ted Talks. Hefyd, fe fynychom y seremoni wobrwyo a drefnwyd gan Gogledd Cymru Greadigol a chyflwyno gwobr i Rondo Media - y wobwr 'Cyfraniad at Ddatblygu Sgiliau yn y Sector'.

Lansio'r Dwsin Digidol

Mae'r Dwsin Digidol yn elfen newydd o'r Grŵp Cyflogwyr Sgiliau Digidol. Fe wnaethom ail-greu strwythur y grŵp i roi ynni newydd iddo a gyrru ymlaen â newidiadau ymysg cyflogwyr digidol yng Ngogledd Cymru. Mae'r Dwsin Digidol yn grŵp o 10-14 o gyflogwyr o bob sector yng Ngogledd Cymru sydd ag anghenion sgiliau digidol. Y grŵp hwn fydd yn gyrru'r cynllun gweithredu sgiliau digidol a ddatblygwyd i ymateb i Gynllun Sgiliau a Chyflogaeth Gogledd Cymru 2023-2025. Bydd y Dwsin Digidol yn gyfrifol am benderfynu ar flaenoriaethau'r grŵp, gan lywio'r cyfeiriad a'r meysydd ffocws.



Ymgyrchoedd, Marchnata a Chyfathrebu

Fe wnaethom gynnal ail ymgyrch y gyfres Pob Cam ym mis Awst 2022. Yn dilyn dull tebyg i ymgyrch Pob Cam y llynedd, dyluniwyd ein hymgyrch Camu Mlaen i dynnu sylw at y gwahanol lwybrau y gall unigolion eu dilyn i'r gweithle, waeth beth fo'u huchelgeisiau. Roeddem yn dymuno hysbysu ac ysbrydoli pobl ifanc yn ystod eu hwythnos canlyniadau o'r cyfleoedd sydd ar gael ar stepen eu drws, ynghyd â chael gwared ar y pwysau o fod angen gwybod beth maent am ei wneud yn y dyfodol ar ôl gadael yr ysgol. Roedd yr ymgyrch yn llwyddiannus iawn, gyda chefnogaeth gan enwau amlwg megis yr artist lleol Lisa Eurgain, y canwr Gruffydd Wyn a'r cyflwynydd radio Catrin Jones.

Wrth i brosiectau ESF ddod i ben, fe ddatlwm y llwyddiant a welwyd yng Ngogledd Cymru gydag ymgyrch cyfryngau cymdeithasol ar y cyd â'r Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol. Cafodd hwn ei gynnal ar y cyd â'r Gynhadledd Cyflogadwyedd ym mis Mawrth 2023 ac roedd yn gyfle gwyb i Brosiectau ESF rannu'r effaith y maent wedi'i gael ar ein cymunedau lleol. I ddysgu mwy am y llwyddiannau, dilynwch y [linc](#).

What you learn at school is important but it's also just a small part of your overall journey.

After my results, but only passing two of my three A-Levels I knew that continuing academic education wasn't for me - I was craving a change.

I've worked in Human Resources and then with Menter a Busnes for nearly nine months. I have experience of working for a larger employer and now I'm a Chartered Engineer doing the job I love.

Responsible for the day-to-day operations of the business and managing the team.

As a Chartered Engineer, I'm responsible for the design and development of new products and systems. I've worked for a variety of companies and have gained a wealth of experience in the field.

Nigel Roberts
Waste Programme Engineer/Lead

Everyone's path will be unique and encounter its own set of challenges.

After my first year of A-levels, I realized I wasn't enjoying the experience and decided to leave 4 months in. I felt strangely happy.

Life long learning is the key to success. There's always more to learn.

After my first year of A-levels, it was clear the strict academic pathway was not working for me. I was looking for a different path.

It's better to focus on this rather than choosing subjects you think you 'need' to choose. I didn't do well in school but I found my own path to success.

Grymuso Gogledd Cymru: Cynhadledd Staff Cyflogadwyedd

Cynhaliwyd cynhadledd i staff cyflogadwyedd rheng flaen. Mynychodd rhyw 70 o fentoriaid ac ymgynghorwyr y gynhadledd ar draws pob sector, o 17 o sefydliadau sy'n gweithredu yng Ngogledd Cymru. Roedd y dydd yn llawn o weithdai rhyngweithiol, trafodaethau grŵp, sesiynau cwestiwn ac ateb ynghyd â sgysiau gwib gan banel o ddarparwyr cyflogadwyedd. Roedd y gynhadledd yn darparu gwell dealltwriaeth o'r ddarpariaeth sydd ar gael ar draws y rhanbarth, pwysu i gyfeirio atynt a sut.



Cyfarfod ar y cyd rhwng Grŵp Darparwyr Dysgu Seiliedig ar Waith (WBL) a'r Grŵp Clwstwr Cyflogwyr Sector Cyhoeddus

Cynhaliwyd cyfarfod ar y cyd rhwng dau o is-grwpiau'r RSP yn ddiweddar i fynd i'r afael â'r heriau a wynebir ar draws sefydliadau'r sector cyhoeddus sy'n ymwneud â chynnig dysgu, cyflawni a darparu WBL yn y Gogledd. Roedd yr heriau yn ymwneud â denu darpar ymgeiswyr i sectorau penodol, agweddau traddodiadol pobl a'r canfyddiad o brentisiaethau a'r rhwystrau ariannol o ran uwchsgilio'r gweithlu. Mae'r ddarpariaeth iaith Gymraeg, lefelau mynediad a'r rhagofynion, ynghyd â'r diffyg prentisiaethau lefel uwch a lefel gradd hefyd yn cael ei weld fel rhwystr ar draws y sector. Mae cynlluniau eisoes ar y gweill i fynd i'r afael â rhai o'r heriau sy'n wynebu'r sector.

Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (NOS)

Rydym wedi cynnal adolygiad o'r NOS gan ganolbwyntio ar dueddiadau/newidiadau galwedigaethol, adnabod galwedigaethau sy'n dod i'r amlwg, sy'n dirywio a'r rhai â blaenoriaeth ar draws ein sectorau blaenoriaeth. Mae'r adolygiad hwn yn helpu i sicrhau bod safonau yn parhau i fod yn berthnasol ac yn gyfoes mewn amgylchedd gwaith sy'n newid yn gyflym.

Y Comisiwn Addysg Trydyddol ac Ymchwil (CTER)

Mae sefydlu CTER yn ddarn nodedig o ddeddfwriaeth, sy'n cyflwyno rhai o'r diwygiadau mwyaf arwyddocaol i bensaernïaeth ein system addysg ers datganoli. Cymru fydd y wlad gyntaf yn y DG i arloesi un awdurdod trosfwaol sy'n rheoleiddio, cymryd trosolwg ac yn cydlynu addysg drydyddol ôl-16. Bellach, mae CTER yn bodoli fel endid cyfreithiol, ac fe ddaw'n gwbl weithredol ym mis Ebrill 2024. Mae'n hanfodol bod llais cyflogwyr yn cael ei glywed yn glir wrth i'r Comisiwn ddatblygu. Mae'r RSP wedi cynnal sesiynau ffocws gyda Llywodraeth Cymru i ddeall yn well beth yw rôl cyflogwyr a sut fydd eu lleisiau yn cael eu hystyried fel rhan o'r corff rheoleiddio. Wrth symud ymlaen, bydd yn hanfodol i'r Bwrdd RSP a'r partneriaid gynnal trafodaethau rheolaidd â'r Bwrdd CTER a Llywodraeth Cymru.

Rhaglen a Sgiliau Ôl-osod er mwyn Optimeiddio

Rydym wedi cynorthwyo â rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio Llywodraeth Cymru er mwyn mapio hyfforddiant sgiliau a'r ddarpariaeth ledled Cymru. Dysgwch mwy [yma](#).

Gall adnabod y dirwedd sgiliau a darpariaeth fod yn gymhleth. Daethom â Landlordiaid Cymdeithasol Rhanbarthol ac Awdurdodau Lleol at ei gilydd i sesiwn mewnwelediadau ar y dirwedd hyfforddi rhanbarthol bresennol, gan gynnwys addysg bellach, addysg uwch a dysgu yn seiliedig ar waith, a phrentisiaethau a rhaglenni Llywodraeth Cymru ynghyd â'r Gronfa Sgiliau Hyblyg a Chyfrifon Dysgu Personol. Cafodd y sesiwn hon dderbyniad da ac roedd modd i ni drafod y bylchau sgiliau presennol a'r diffygion, yr angen am sgiliau yn y dyfodol a'r rhwystrau i gael mynediad at recriwtio, uwchsgilio ac ail-sgilio staff. Mae'r sefydliadau bellach wedi dod yn aelodau o'r grŵp clwstwr cyflogwyr adeiladu ac mae'r gwaith yn parhau i'w cefnogi gyda'r heriau a nodwyd.

Llwybrau Gyrfa a'r Cwricwlwm Newydd a gweithio gydag ysgolion a phartneriaid addysgiadol

Yn ystod y flwyddyn, mae'r RSP wedi gweithio'n agos â chonsortia addysg GwE yng Ngogledd Cymru i alinio'r cwricwlwm newydd gydag anghenion cyflogwyr. Mae trafodaethau hefyd wedi digwydd gyda Phenaethiaid i rannu gwybodaeth am y farchnad lafur ac arddangos cyfleoedd ac ehangder y gyrfaoedd sydd ar gael i bobl ifanc. Mae canlyniadau'r trafodaethau a'r cydweithio wedi arwain at gydweithio rhwng yr RSP, Gyrfa Cymru, GwE ac Ysgolion i gael cynllun cyfathrebu ar y cyd ar sut i dargedu pobl ifanc mewn ysgolion o Flwyddyn 7 ymlaen gyda gwybodaeth am llwybrau gyrfa, gan gynnwys hyrwyddo prentisiaethau.

Sgiliau Sero Net

Mae sicrhau bod gennym weithlu medrus i wneud y trosglwyddiad i Sero Net yn un o'n blaenoriaethau allweddol fel RSP. Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi gweithio â Llywodraeth Cymru i ddatblygu Cynllun Gweithredu Cymru ar Sgiliau Sero Net drwy sicrhau llais y cyflogwr fel rhan o'r trafodaethau. Gyda 43% o gyflogwyr yn y rhanbarth yn nodi eu bod yn rhagweld rolau swyddi newydd a sgiliau yn eu sefydliad wedi'u halinio â sgiliau sero net a gwyrdd, mae angen i ni sicrhau bod gennym y ddarpariaeth sgiliau yn y rhanbarth i gefnogi cyflogwyr a gweithwyr.





Merched yn dangos bod dewis a hyblygrwydd yn allweddol i sgiliau a hyfforddiant sero net

Wrth i'n heconomi drawsnewid i gefnogi uchelgeisiau sero net Llywodraeth Cymru, mae'n bwysig ein bod yn arfogi ein gweithlu gyda'r sgiliau a'r cyfleoedd cywir. Eisoes, mae nifer cynyddol o opsiynau ar gael pan ddaw i hyfforddiant a sgiliau, ac yn sicr nid yw un llwybr yn addas i bawb.



Ystyriwch Molly Slater a Tesni James o ogledd Cymru; er bod y ddwy yn ennill cymwysterau tuag at yrfa ym maes sero net; mae llwybrau'r ddwy yn gwbl wahanol.

Mae Molly yn 20 oed ac fe enillodd bum lefel A a phenderfynu nad oedd mynd i'r brifysgol yn llawn amser yn addas iddi hi. Gan fod ganddi ddiddordeb brwd mewn newid hinsawdd, cafodd brentisiaeth graff Effeithiolrwydd Ynni Carbon Isel ym Mhrifysgol Glyndŵr Wrecsam, wedi'i chyflogi gan Gyngor Sir y Fflint:

 "Roeddwn wastad am gael gyrfa oedd yn amlwg yn y gymdeithas ac yn rhywbeth oedd yn edrych tua'r dyfodol," meddai Molly. "Pan welais yr hysbyseb am y brentisiaeth yma, dyma'r swydd ddelfrydol i mi ond doedd gen i erioed syniad fod y fath beth yn bodoli! Roedd yn berffaith gan fy mod yn chwilio yn benodol am brentisiaeth graff ac rydw i'n angerddol iawn dros newid hinsawdd. Rydw i'n mynd i'r brifysgol unwaith yr wythnos ac yna yn gweithio yn fy rôl fel Cynorthwy-ydd Prosiect Newid Hinsawdd i'r cyngor am weddill yr wythnos." 

Mae diwrnod arferol iddi yn cynnwys ceisio cael tir ar gyfer prosiectau cyngor megis plannu coed, bioamrywiaeth, paneli solar a thyrbinau gwynt a pharatoi newyddlen newid hinsawdd y Cyngor, sy'n codi ymwybyddiaeth ymysg trigolion am sut mae'r awdurdod lleol yn lleihau ei allyriadau carbon.

Ar ôl dechrau'r brentisiaeth ym mis Medi 2022, mae'n gyffrous am y dyfodol:

 "Mae'r maes gwaith hwn yn tyfu. Dyma'r ffordd ymlaen. Rydw i'n gyffrous am y dyfodol - dydw i ddim yn siŵr ym mha sector y bydda i'n gweithio yn y pen draw, ond dwi'n gwybod, gyda'r sgiliau yr ydw i'n eu dysgu, y galla i wneud argraff fawr." 

Ar y llaw arall, mae Tesni James wedi ailhyfforddi ar ôl cael ei theulu. Yn weithiwr cymdeithasol am naw mlynedd, fe benderfynodd ymuno â busnes adeiladu'r teulu, sydd wedi'i leoli ym Mlaenau Ffestiniog. Roedd Tesni yn dymuno ennill cymwysterau'r diwydiant ond, gyda thri o blant ifanc, roedd am astudio yn hyblyg.

Yn ei choleg lleol, fe gofrestrodd ar gwrs Cyfrif Dysgu Personol wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru i ennill Tystysgrif Rheoli Amgylcheddol NEBOSH. Mae'r cymhwyster wedi'i ddylunio i roi gwybodaeth a dealltwriaeth i ddysgwyr i helpu i reoli eu materion amgylcheddol.



Meddai Tesni: "Enillais fy Nhystysgrif Rheolaeth Amgylcheddol drwy gwrs sy'n cael ei ariannu gan PLA ynghyd â chymwysterau lechyd a Diogelwch gwahanol. Mae PLAs yn wych - fe wnes fy un i drwy Goleg Llandrillo ond fe wnaethais nhw ar-lein. Roedd yn fy siwtio i beidio â gorfod teithio i'r coleg gan ei fod yn gweithio o gwmpas y plant a'r busnes.

Mae PLAs yn gyrsiau a chymwysterau sydd wedi'i ariannu'n llawn sy'n hyblyg fel y gall pobl hyfforddi o amgylch cyfrifoldebau presennol er mwyn bwrw ymlaen mewn swydd bresennol neu newid gyrfaoedd yn gyfan gwbl.

Mae buddsoddiad ychwanegol o £2m gan Lywodraeth Cymru mewn PLAs gwyrdd yn cefnogi ymgyrch Cymru tuag at sero net. Mae'r cap cyflog cymhwysra wedi cael ei ddileu ar gyfer y rhai sy'n uwchsgilio neu ailsgilio mewn cymwysterau gwyrdd mewn adeiladu, peirianeg, gweithgynhyrchu ac ynni.

"Fel busnes, rydym yn awyddus i edrych ar ffyrdd lle y gallwn fod yn fwy amgylcheddol gyfeillgar," meddai Tesni. "Ers fy astudiaethau, rydym wedi cynyddu ein hymdrechion ailgylchu ac rydym bellach yn edrych ar sut y gallwn insiwleiddio a gwresogi ein swyddfeydd yn fwy effeithlon.

Gwnaeth y cwrs fi yn fwy ymwybodol o'r rheoliadau ac mae wedi helpu i arddangos ein hymrwymiad fel busnes tuag at sero net. Buaswn yn annog eraill yn y diwydiant i gymryd golwg ar PLAs - maent yn gymwysterau am ddim ac ar gael mewn colegau lleol ledled Cymru."



Mae Tesni, sy'n ymwybodol o sut fydd sero net yn cael effaith uniongyrchol ar y diwydiant adeiladu, bellach yn ystyried opsiynau i astudio MSc mewn lechyd Galwedigaethol, Diogelwch a Rheolaeth Amgylcheddol.

Mae'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol yn gweithio y tu ôl i'r llenni gydag ymdrechion Cymru i gyflawni sero net. Sian Lloyd Roberts yw Rheolwr Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru:



"Mae'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol yn chwarae rhan hanfodol i sicrhau bod gweithwyr gyda sgiliau addas yn cwrdd ag anghenion cyflogwyr. Rydym yn gweithredu fel pont rhwng darparwyr hyfforddi - megis colegau - a chyflogwyr, yn codi proffil yr hyfforddiant sydd ar gael ond hefyd yn ennyn dealltwriaeth o'r sgiliau sydd eu hangen ledled Cymru.

"Mae sgiliau gwyrdd neu gysylltiedig â charbon isel ar flaen ein cylch gwaith ac mae'n rhan enfawr o'r hyn yr ydym yn ei wneud. Ein rôl yw helpu i ymdrin â bylchau a diffygion sgiliau, gweithio'n agos â Llywodraeth Cymru, ac rydym wir yn fodlon iawn gyda chryfder ac amrywiaeth yr hyfforddiant a'r cymwysterau sydd ar gael yng Ngogledd Cymru."

Ond yn sicr nid yw Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru yn fodlon ar hynny: "Mae yna wastad fwy i'w wneud, wrth gwrs, yn enwedig mewn sector sy'n esblygu mor gyflym."




Molly Salter



Tesni James


Sut ydym ni wedi helpu cyflogwyr a phartneriaid?

 Rydym yn hynod falch o fod yn rhan o Grŵp Llywio'r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol sy'n cymryd trosolwg o ddadansoddi'r angen am sgiliau ar draws y diwydiant ynni carbon isel yng Ngogledd Cymru. Mae'n hanfodol ein bod yn gweithio gyda'n gilydd ar draws sectorau ac ar draws y rhanbarth i uchafu'r cyfleoedd sy'n cael eu cyflwyno gan y prosiectau yma yng Ngogledd Cymru, ac yn hanfodol, sicrhau bod gan y gweithlu lleol sgiliau llawn a'i fod yn barod i gymryd mantais o'r cyfleoedd hynny. Mae'r RSP yn gerbyd gwych i yrru'r cydweithio hwn yn ei flaen.

~ Alan Raymant, CEO, Cwmni Egino




 Egino


 Drwy weithio â Phartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru a phartneriaid, mae Fferm Wynt Alltraeth Mona (sy'n cael ei datblygu mewn partneriaeth rhwng BP ac EnBW) yn medru gweithio yn strategol â phartneriaid yn y maes sgiliau i sicrhau ein bod yn gwneud y mwyaf o werth ein sector yng Ngogledd Cymru


~ Ifer Gwyn, BP



 Mae gweithio ar y cyd â phartneriaid fel rhan o'r RSP dros y 12 mis diwethaf wedi bod yn benodol ddefnyddiol o ran codi ymwybyddiaeth cyflogwyr ynghylch profiadau sy'n ymwneud â gwaith sy'n cael ei wneud gan ddysgwyr ar Ynys Môn. Mae'r RSP wedi bod yn hanfodol wrth greu grŵp tasg a gorffen gyda phartneriaid allweddol i edrych ar sut mae gwbyodaeth a llwybrau cyflogaeth allweddol yn cael ei drosglwyddo i ysgolion, dysgwyr a'u rhieni. Mae blaen raglen waith wedi cael ei drafftio a bydd y 12 mis nesaf yn bwysig i'w defnyddio o ran gweithio gydag ysgolion, colegau AB, Gyrfa Cymru a'r RSP o wneud y cyfathrebu yn fwy effeithiol a gwella'r cyfleoedd a'r ddealltwriaeth o lwybrau i bobl ifanc.

~ Aaron Evans, Adran Addysg,
Cyngor Sir Ynys Môn




 Rydym wedi bod yn gweithio'n agos â'r NWRSP ers diwedd 2022 ar ddatblygu ein strategaeth sgiliau a chyflogaeth, ac rydym yn gwerthfawrogi'n fawr y mewnwelediad, y wybodaeth a'r profiad sy'n cael eu cynnig drwy weithio gyda Sian a'u tîm gwerthfawr. Rydym yn trysori'r berthynas ddwyochrog hefyd oherwydd mae'n ein cynorthwyo i ddeall ein sail rhan-ddeiliaid ehangach yn well, ac wedi hynny, weithio gyda mwy o aliniad a dealltwriaeth â nhw â phosib.

~ Poppy Treyhame, RWE



RWE


 Yn ddiweddar, cefnogodd y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol ni gyda her recriwtio. Roedd cynnydd mewn allbwn busnes yn golygu y buom yn ceisio ymdrin â chynnydd mewn angen am adnoddau a cheisio recriwtio 40 penodiad byrdymor mewn cyfnod byr o amser. Bu i'r rhwydwaith y cysylltwyd ni â nhw ddarparu cefnogaeth uniongyrchol ac amhrisiadwy ar gyfer ein gofynion; roedd y rhain yn cynnwys Awdurdodau Lleol yn cyflwyno'r rhaglen Cymunedau am Waith a Mwy a'r Adran Gwaith a Phensiynau. Roedd y cysylltiadau hyn yn golygu ein bod yn cael pŵl amrywiol o dalent a'n bod wedi cwblhau ymgyrch lwyddiannus drwy gael at dalent lleol gan ddefnyddio rhwydwaith a guradwyd yn uniongyrchol gyda'r tîm yn y Bartneriaeth

Sgiliau Rhanbarthol

~ Lucy Rimmer, Qioptiq




QIOPTIQ
Partners for Innovation

 Mae'r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol wedi bod yn werthfawr iawn i mi wrth adeiladu fy rhwydwaith o bobl a grwpiau ar draws y sector creadigol a digidol. Cefais y fraint o fod yn rhan o'r Panel Cyflogwyr yn lansiad eu cynllun Sgiliau a Chyflogaeth ym mis Ionawr a chynhaliais weithdy ar gyfer mentoriaid a chymhellwyr cyflogadwyedd ym mis Mawrth fel rhan o'u Cynhadledd Cyflogadwyedd yng Nghanolfan Busnes Conwy. Rwyf mor ddiolchgar am y cyfle i rannu fy llais fel cyflogwr am yr anghenion sgiliau yn fy sefydliad a'r sector creadigol a digidol ehangach

~ Hannah Roose, The VAE



THE
VAE

 Rydym ni, ynghyd â nifer o gyflogwyr ar draws y sector gofal cymdeithasol, yn wynebu heriau aciwt yn ymwneud â recriwtio a chadw staff. Mae Plas Garnedd yn hynod ddiolchgar i Catherine a'r tîm am eu cymorth i'n cefnogi ni i geisio recriwtio gweithwyr cefnogi i swyddi yn Ynys Môn a Gwynedd. Trefnodd a hwylusodd Catherine gyfarfod rhyngom ni a darparwyr cyflogadwyedd lleol; roedd pawb oedd ynghlwm yn cael dylanwad yn eu maes gwaith eu hunain ac roedd y cynnydd yn werthfawr iawn i ni. Nid oeddem yn gwybod bod y gefnogaeth hon yn bodoli i ni fel cyflogwyr; rydym yn hynod ddiolchgar i'r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol am roi'r cysylltiadau hyn i ni

~ Trevor & Elen Hughes, Plas Garnedd



GOFAL
Plas Garnedd
CARE

05. Asesiad dros y 12 mis diwethaf

Is-grŵp Cyflogadwyedd

Mae'r Gweithgor Cyflogadwyedd wedi cynyddu o ran graddfa a chryfder dros y flwyddyn a fu gydag amrediad o asiantaethau newydd yn mynychu ac yn dod â'u persbectif a phrofiad eu hunain at y bwrdd. Rwyf wedi bod yn benodol falch o weld mwy o gynrychiolaeth gan y sector gwirfoddol, sy'n rhan hanfodol o'r ecosystem cyflogadwyedd cymhleth ledled y rhanbarth. Fe lwyfannodd y grŵp gynhadledd wych i staff rheng flaen o bob sector yn hwyr yn y flwyddyn ac roedd yn wych gweld y timau yn cydweithio, yn rhannu eu dysgu ac yn adeiladu sylfaen gref ar gyfer cydweithio yn y dyfodol. Ymysg y pethau a gyflawnwyd dros y flwyddyn ddiwethaf mae:

- Trefnu a chynnal cynhadledd cyflogadwyedd diwrnod cyfan, wyneb-yn-wyneb. Bu 70 o fentoriaid ac ymgynghorwyr o bob sector fynychu'r gynhadledd yn Llandudno. Roedd y gynhadledd yn cynnwys gweithdai, trafodaethau grŵp, sesiynau holi ac ateb, a sgysiau panel i ddangos y cyfleoedd cyflogadwyedd sydd ar gael ledled y rhanbarth a rhoi mwy o oleuni i randdeiliaid ar yr adnoddau sydd ar gael.
- Trefnu a chyflwyno ymgyrch cyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo cymorth cyflogadwyedd. Bu i aelodau o'r grŵp, rhannu astudiaethau achos a straeon newyddion da am unigolion a chyflogwyr sydd wedi elwa o brosiectau cyflogadwyedd fel rhan o ddathliadau Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) dan un hashnod, #EmpoweringNorthWales. Rhannwyd 5,521 o argraffiadau (barn) ar draws y tri phlatfform, LinkedIn, Twitter a Facebook.
- Arwain ar weithdai amrywiol drwy gydol y flwyddyn, i gefnogi gyda datblygiad y cynllun Sgiliau a Chyflogaeth newydd, adnabod blaenoriaethau rhanbarthol yn barod ar gyfer y Gronfa Ffyniant Gyffredin a chynhaliwyd gweithdy i gefnogi Gwarant Person Ifanc i amlinellu'r ddarpariaeth cyflogadwyedd bresennol ac adnabod bylchau.
- Cyflawni ar gynllun gweithredu gweithgor cyflogadwyedd 2022/23 a chreu cynllun gweithredu newydd sy'n cefnogi cynllun gweithredu sgiliau ehangach yr RSP sy'n rhan o'r cynllun sgiliau a chyflogaeth tair blynedd.
- Darparu sianel am ddiweddariadau rheolaidd gan bartneriaid allweddol, Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, yr Adran Gwaith a Phensiynau a Cymru'n Gweithio mewn perthynas â rhaglenni cyflogadwyedd, digwyddiadau a chyfleoedd ariannu, ynghyd â data a gwybodaeth gyfredol ar y dirwedd ranbarthol o ran pobl a grwpiau penodol o bobl sydd angen cefnogaeth cyflogadwyedd.
- Mae nifer o Bartneriaethau a chynlluniau cydweithio wedi esblygu ymysg darparwyr cyflogadwyedd drwy hyrwyddo'r ddarpariaeth yn ystod cyfarfodydd grŵp, mae'r rhain yn cynnwys Gofal Cymdeithasol Cymru, AAT, We Mind the Gap, Conwy Connect, The VAE, Yr Academi Sgiliau Bwyd a Diod Cenedlaethol (Cymru) a'r Bartneriaeth Awyr Agored.

~ Niall Waller, Cadeirydd



Grŵp Darparu Dysgu yn Seiliedig ar Waith (WBL)

Eleni, rwyf yn falch ein bod wedi medru adeiladu ein rhaglen o gamau gweithredu i gyfarfod a chefnogi cynllun Sgiliau a Chyflogaeth newydd ar gyfer 2023-25, gyda phob darparwr Dysgu yn Seiliedig ar Waith yn y rhanbarth yn cydweithio i ddod o hyd i ffyrdd newydd o adeiladu a gwella cyfleoedd ar draws pob lefel yng Ngogledd Cymru. Hefyd, rydym wedi medru dod â chynlluniau peilot cydbrentisiaethau newydd i'r rhanbarth, gan gynnwys yn y diwydiannau creadigol, ac rydym wedi mynd ati i drafod gyda Grŵp Cyflogwyr Sector Cyhoeddus yr RSP ar sut y gallwn deilwra ac ychwanegu gwerth i brentisiaethau o fewn ei sector cyflogaeth allweddol yng Ngogledd Cymru. Ymysg y pethau a gyflawnwyd dros y flwyddyn ddiwethaf mae:

- Cyflawni ar gynllun gweithredu grŵp darparwyr 2022/23 a chreu cynllun gweithredu newydd yn gysylltiedig â'r cynllun gweithredu sgiliau a chyflogaeth RSP tair blynedd newydd.
- Datblygodd Grŵp Darparwyr WBL Lyfryn Prentisiaethau Lefel Uwch a Gradd sy'n tynnu sylw at fuddion prentisiaethau ac sy'n dangos y llwybrau prentisiaethau yn glir, ar y lefelau hyn, sy'n cael eu cynnig yn y rhanbarth ynghyd â'r darparwyr sy'n eu cynnig.
- Cynhaliwyd cyfarfod ar y cyd rhwng y Grŵp Darparwyr WBL a'r Grŵp Clwstwr Cyflogwyr Sector Cyhoeddus ym mis Mawrth i ymdrin â'r heriau sy'n cael eu hwynebu ar draws sefydliadau sector cyhoeddus sy'n ymwneud â'r cynnig dysgu WBL yng Ngogledd Cymru. Mae enghreifftiau o'r anawsterau presennol yn cynnwys denu darpar ymgeiswyr at gyfleoedd prentisiaeth, canfyddiad pobl o brentisiaethau a rhwystrau ariannu ar gyfer uwchsgilio'r gweithlu. Mae cynlluniau eisoes ar y gweill i fynd i'r afael â rhai o'r heriau sy'n wynebu'r sector.
- Cynhaliwyd gweithdy wyneb-yn-wyneb i gefnogi datblygiad y Cynllun Sgiliau a Chyflogaeth newydd. Roedd y pynciau trafod yn cynnwys rôl prentisiaethau yn y cynllun, hyrwyddo prentisiaethau a'r sectorau blaenoriaeth, ynghyd â sut mae darparwyr a'r RSP gyda'i gilydd yn adnabod ac yn cwrdd ag anghenion y dyfodol.
- Trafododd y grŵp yr ymateb rhanbarthol i'r Wythnos Prentisiaethau Cenedlaethol a chytunodd i gefnogi ymgyrchoedd a digwyddiadau eu gilydd.
- Trafodwyd y model cyd-brentisiaethau newydd ymysg darparwyr er mwyn deall yr angen rhanbarthol; rydym yn trafod cyfleoedd i weithio mewn partneriaeth a sut i liniaru yn erbyn dyblygu'r cynnig. Bellach, mae Grŵp Llandrillo Menai yn cynnig cyfle i weithio ar gydbrentisiaeth gydag Agoriad ac mae'n parhau i gynnig cyfle am gydbrentisiaeth lwyddiannus ar gyfer y sector creadigol.
- Cymryd rhan mewn dau weithdy sgiliau i adnabod y blaenoriaethau sgiliau rhanbarthol fel paratoad ar gyfer y Gronfa Ffyniant Gyffredin.
- Datblygu rhestr o Fuddsoddiadau Cynhyrchu Swyddi ar Raddfa Fawr yng Ngogledd Cymru er mwyn monitro ac ymateb i'r galw am sgiliau sydd gan brosiectau arwyddocaol yn y rhanbarth, gan wneud y mwyaf o'r cyfleoedd am Ddysgu yn Seiliedig ar Waith.
- Ymateb i gymwysterau newydd a newidiadau i gymwysterau i sicrhau effeithiolrwydd rhanbarthol.

~ Paul Bevan, Chair



Rhwydwaith Sgiliau Digidol

Mae'r grŵp wedi ffynnu ac arloesi o ran ei weithio mewn partneriaeth dros y 12 mis diwethaf. Rydym wedi bod yn gweithio i helpu cyflogwyr i oresgyn rhai o'u cyd-rwystrau a heriau drwy wneud cysylltiadau a rhannu arferion gorau a'r gwersi a ddysgwyd o brofiadau blaenorol. Mae'r grŵp wedi ail-ffocysu ac ad-drefnu gyda strwythur newydd, ac rydym yn parhau i fwrw ymlaen i godi ymwybyddiaeth am anghenion sgiliau digidol yng Ngogledd Cymru. Ar ôl gweld faint yr ydym wedi ei gyflawni dros y 12 mis diwethaf, mae hyn yn fy nghymell fwyfwy i barhau â'n gwaith fel rhwydwaith. Ymysg y pethau a gyflawnwyd dros y flwyddyn ddiwethaf mae:

- Cynnal gweithdy ac Arddangosfa Sgiliau Digidol mewn partneriaeth ag M-SParc ym mis Mehefin 2022. Gwelsom dros 120 o gyflogwyr, unigolion a myfyrwyr yn dod ynghyd i arddangos eu gwaith a'u cyfleoedd am swyddi. Roedd y digwyddiad yn llwyddiant a chynigiwyd sawl cyfweiliad am swydd, gan roi cyfle i rai cyflogwyr i ymdrin â'u heriau recriwtio.
- Rhannu arferion gorau gyda chyflogwyr yn y sector gan gynnwys cyflwyniadau gan Google a BT.
- Canolbwyntio ar y Cwricwlwm newydd a Phrofiad sy'n ymwneud â Gwaith a sut mae hyn yn effeithio ar gymhwysedd digidol cenedlaethau'r dyfodol. I gefnogi dealltwriaeth y rhwydwaith o'r cwricwlwm newydd, rydym wedi cyflwyno eitemau ffocws ar CWRE, gyda siaradwyr gwadd o GwE a Chymwysterau Cymru sydd wedi medru rhannu sut mae sgiliau digidol yn cael eu hintegreiddio i addysg o 3 oed ymlaen.
- Ffurfiwyd y Dwsin Digidol fel grŵp cydweithio arloesol a newydd oedd yn cynnwys 10-14 o gyflogwyr lleol o ledled y rhanbarth. Prif amcan y Dwsin Digidol yw ymdrin â'r bwlch sgiliau digidol a sicrhau bod gweithlu'r rhanbarth yn ddigon parod i harneisio potensial technolegau digidol. Drwy feithrin amgylchedd cefnogol ar gyfer dysgu a datblygu sgiliau, mae'r grŵp yn ceisio grymuso unigolion a busnesau i fynd i'r afael ag arloesedd digidol, gyrru twf economaidd, a gwella cynhyrchedd cyffredinol.

~ Pryderi ap Rhisiart, Cadeirydd



Grŵp Clwstwr Cyflogwyr Sector Cyhoeddus

Dros y 12 mis diwethaf, rydym wedi dod yn grŵp cydweithredol a chydlynus. Crewyd cynllun gweithredu manwl i ymdrin â rhai o'r prif faterion sy'n wynebu'r sector. Rydym wedi cryfhau ein perthnasau fel cyrff sector cyhoeddus ac wedi rhannu arfer dda. Ymysg ein cyflawniadau allweddol mae'r gallu i ddyllanwadu ar y ddarpariaeth gan ein darparwyr lleol a darparu data i sicrhau cyfleoedd cyfartal ar gyfer ein gweithlu sy'n siarad Cymraeg.

Ymysg y pethau a gyflawnwyd dros y flwyddyn ddiwethaf mae:

- Cynnal gweithdai i adnabod themâu cyffredin o ran heriau a rhwystrau i gyflogwyr. Roedd hyn yn cynnwys bylchau mewn sgiliau, anawsterau recriwtio a datrysiadau posib. Datblygwyd cynllun gweithredu i gefnogi'r sector gyda rhai o'r materion a'r heriau a nodwyd. Mae gwaith yn parhau i gyflawni ar y cynllun gweithredu.
- Cyfathrebwyd themâu cyffredin i'r grŵp Darparwyr Dysgu yn Seiliedig ar Waith yn ystod cyfarfod ar y cyd a gynhaliwyd ym mis Mawrth, mae trafodaethau a chamau gweithredu yn parhau i gefnogi'r sector gyda rhai o'r heriau a godwyd, y ddarpariaeth iaith Gymraeg, sgiliau cyflogadwyedd ac ychwanegiadau eraill i brentisiaethau, ynghyd â phrentisiaethau gradd.
- Aeth aelodau'r grŵp ati i ymgysylltu mewn trafodaethau ar y cyd, yn ystod cyfarfodydd rheolaidd a thu allan i gyfarfodydd, i rannu gwybodaeth, persbectif a phrofiadau.
- Darparu sianel i'r grŵp ymgysylltu â rhan-ddeiliaid, megis y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, NTfW, Grŵp Llandrillo-Menai a Choleg Cambria.
- Darparu platfform i rannu arferion gorau ymysg aelodau, megis cynllun Prentisiaethau Cyngor Gwynedd a'u cynllun graddedigion, sef Cynllun Yfory. Roedd hyn yn help garw i sefydliadau sydd heb gynllun prentisiaethau wedi'i sefydlu hyd yma, neu sydd wrthi yn datblygu un, ond sydd yn y camau cyntaf o wneud hynny.

~ Heather Johnson, Cadeirydd



Grŵp Clwstwr Cyflogwyr Adeiladwaith

Mae'r grŵp clwstwr adeiladu wedi cydweithio dros y 12 mis diwethaf i sefydlu cynllun gweithredu ac rwyf yn hynod falch o faint sydd wedi cael ei drafod a'i weithredu mewn cyfnod mor fyr. Mae'r grŵp wedi darparu platfform i gyflogwyr leisio eu hanghenion o ran y ddarpariaeth ac mae'n newyddion da iawn bod prentisiaeth gradd mewn adeiladu (wedi'i hariannu) wrthi'n cael ei datblygu, er budd y bobl ifanc yn ein diwydiant. Rwyf yn sicr y bydd llwyddiannau fel hyn yn parhau i ddatblygu drwy'r grŵp clwstwr dros y 12 mis nesaf a thu hwnt.


Ymysg y pethau a gyflawnwyd dros y flwyddyn ddiwethaf mae:

- Adnabod a dadansoddi'r galw presennol ac yn y dyfodol am sgiliau, adnabod meysydd lle mae diffygion yn bodoli a thrafod ffyrdd o gau'r bylchau hynny yn effeithiol drwy weithio â darparwyr hyfforddiant, cyrff dyfarnu a rhanddeiliaid eraill. Datblygwyd cynllun gweithredu gan y grŵp i gefnogi'r sector gyda rhai o'r heriau a nodwyd.
- Darparu sianel i'r grŵp ymgysylltu a chydweithio â rhanddeiliaid a darparwyr hyfforddiant
- Mynd ati i ddarparu adborth ar y prentisiaethau adeiladu newydd i City and Guilds a CITB i ddylanwadu ar newidiadau i'r gofynion fframwaith prentisiaethau a chymwysterau presennol.
- Rhannu arferion gorau sy'n cefnogi eraill gyda strategaethau gwerth cymdeithasol eu sefydliad, e.e. sut maent yn ymgysylltu gydag ysgolion a'r buddion y daw hyn i'w sefydliadau i adeiladu pibell-lin o dalent ac ysbrydoli pobl ifanc, i ystyried gyrfa mewn adeiladu.
- Rhannu barn â Llywodraeth Cymru drwy'r RSP am yr angen ar draws y sector am brentisiaeth gradd mewn adeiladu, wedi'i hariannu. Mae Llywodraeth Cymru bellach wedi cadarnhau y byddant yn datblygu prentisiaethau gradd mewn sifil, mesur tir, a rheoli adeiladu, ac y bydd hyn yn digwydd yn ystod 2023-2024.

~ Alison Hourihane, Cadeirydd



06. Y 12 Mis Nesaf

 Dros y 12 mis nesaf, ein ffocws ni, a'n partneriaid, fydd cyflawni a dod â blaenoriaethau'r Cynllun Sgiliau a Chyflogaeth 2023-25 yn fyw er mwyn gwneud gwahaniaeth i'n cyflogwyr ac i bobl y rhanbarth.

Ar hyn o bryd, rydym yn mynd i gyfnod newydd yn y rhanbarth gyda diwedd yr arian Ewropeaidd, cyflwyno'r gronfa Ffyniant Gyffredin, datblygiad y Comisiwn Addysg Trydyddol ac Ymchwil (CTER) ac ymgynghoriadau ar gymwysterau cyn-16 ac ôl 16 Gwnaed yng Nghymru - a fydd oll yn dod â newidiadau allweddol i'r dirwedd sgiliau yng Nghymru. Mae'r RSP a'r partneriaid ehangach yn awyddus i gofleidio'r newidiadau hyn, fydd yn ddi-os yn dod â'u heriau eu hunain. Rydym yn dymuno gweithio â CTER, Cymwysterau Cymru a Llywodraeth Cymru i sicrhau nid yn unig bod llais ein cyflogwyr yn cael ei glywed, ond hefyd yn cael ei ystyried mewn ffordd ystyrlon. Rydym hefyd yn dymuno parhau i ddatblygu'r bibell-lin talent mewn addysg, ysgolion, prentisiaethau, AB ac AU a sicrhau bod unigolion yn gwybod beth yw eu dewisiadau pan ddaw i'w llwybr gyrfa a deall beth yw'r cyfleoedd eang yn y rhanbarth.





Mae gennym ddatblygiadau cyffrous dros y 12 mis nesaf, yn cynnwys:

- Lansio ein cynllun sgiliau pobl ifanc a'n pecyn teclynnau fydd yn cynnwys manylion ar lwybrau gyrfa, gwybodaeth am ein sectorau, fideos 'diwrnod ym mywyd' ac astudiaethau achos.
- Cynllun cyd-gyfathrebu llwybrau gyrfa peilot gydag ysgolion uwchradd Ynys Môn ar y cyd â Phenaethiaid, Gyrfa Cymru, GwE, Grŵp Llandrillo Menai a Llwyddo'n Lleol 2050.
- Gweithio ar gyflwyno Cyfarwyddiadur Gyrfaedd, Gwybodaeth, Cyngor ac Arweiniad ar y cyd â Gyrfa Cymru ac RSP Rhanbarth Prifddinas Caerdydd, RSP Canolbarth Cymru ac RSP y De Orllewin.
- Dadansoddiad sgiliau ar ddatblygiadau Ynni Carbon Isel, sgiliau digidol a sgiliau lechyd a Gofal Cymdeithasol yn y rhanbarth.
- Cyhoeddi prospectws Ynni Carbon Isel i fusnesau yn arddangos ein cyfleusterau addysg a'n pibell-lin sgiliau gwych.
- Cynnal digwyddiadau ar thema i gyd-fynd â chyflogwyr, pobl ifanc a darparwyr er mwyn deall y ddarpariaeth sgiliau a gwybodaeth am y farchnad lafur.
- Parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru a darparwyr i ddylanwadu ar y ddarpariaeth a'r polisi sgiliau.
- Parhau i gefnogi anghenion cyflogadwyedd a sgiliau rhaglenni Cynllun Twf Gogledd Cymru.
- Parhau i gefnogi buddsoddiad ar raddfa fawr yn y rhanbarth, h.y. Porthladd Rhydd i sicrhau y bibell-lin o dalent lleol.

Rwy'n edrych ymlaen at barhau i weithio gyda'n cyflogwyr, darparwyr a rhan-ddeiliaid i gyflawni ein gweledigaeth uchelgeisiol ar gyfer sgiliau a chyflogaeth. Mae gennym y brwdfrydedd a'r awch fel [#TimGogleddCymru](#)



Sian Lloyd Roberts

Rheolwr Sgiliau Rhanbarthol

Cysylltu a'r Tîm



Sian Lloyd Roberts
Rheolwr Sgiliau Rhanbarthol



Cath Morris-Roberts
Uwch Swyddog Cyflawni Sgiliau



Angharad Evans
Swyddog Prosiect Sgiliau
a Chyflogadwyedd



Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol
Gogledd Cymru
North Wales
Regional Skills Partnership



www.rspnorth.wales



FOR MORE INFORMATION
info@rspnorth.wales



[@SkillsNWales](https://twitter.com/SkillsNWales)
[in](https://www.linkedin.com/company/psr-gogledd-cymru-rsp-north-wales) PSR Gogledd Cymru - RSP North Wales
[f](https://www.facebook.com/psr-gogledd-cymru-rsp-north-wales) PSR Gogledd Cymru - RSP North Wales